**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Tachwedd 2il 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Gerwyn Davies

Presennol: Gwydion A Jones (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Elen H Edwards, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, R Emlyn Williams, Einir Williams, D Gwynfor Davies a Gwyn Williams (yn hwyrach) a'r Clerc.

59.1 Croesawyd bawb i'r cyfarfod ac yn arbennig i Einir Williams, Gwytherin i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor Cymuned yn cynrychioli ardal Gwytherin.

59.2 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd Ann Vaughan gysylltiad ag eitem 10 – Cronfa Bro Cernyw – Clwb Garddio.

59.3 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod Medi 28ain 2016 ac fe'u derbyniwyd fel cofnod cywir.

59.4 MATERION YN CODI - BAW CŴN YN LLANGERNYW – angen gofyn i'r Warden Cŵn dargedu Stad Fedwen Arian ynghyd â Stad Glan Collen.

Cyrhaeddodd Gwyn Williams y cyfarfod.
59.5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
59.5.1 Allt Waterloo – angen gofyn i'r Cyngh Dilwyn Roberts roi sylw i'r ffordd pan mae'n gwneud archwiliad ward. Hefyd angen gofyn i'r Adran Ffyrdd am adroddiad strwythurol ar y ffordd.
59.5.2 5 DOLHYFRYD, PANDY TUDUR – derbyniwyd ebost gan Lynda Quinn, 5 Dolhyfryd yn atodi copïau o ohebiaeth at Gyngor Conwy ynglŷn a llifogydd tu allan i'r tŷ. PENDERFYNWYD i anfon hyn ymlaen i Gonwy a chopi i Dilwyn Roberts.

59.6 CAIS CYNLLUNIO RHIF 0/43302 Cais Ôl-weithredol ar gyfer addasiadau ac ychwanegiadau i bortsh presennol a chadw canopi dros flaen siop yn Meirion Stores & PO, Llangernyw gan Mr & Mrs D Baines. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais. Soniwyd bod angen trafod sut i ddelio â chwyn aelod o'r cyhoedd o fewn y cyfarfod.

59.7 CÔD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG – PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn y Côd yn dilyn newid pennawd Rhan 3 i 'Datgan Cysylltiad a/neu fuddiant'. Arwyddwyd y Côd gan y Cadeirydd. Bydd angen gwneud copi papur i chwe aelod a bydd angen arwyddo taflen i'w dderbyn.

59.8 TOILEDAU LLANGERNYW – deallir bod rhai diffygion yn y toiledau: basin wedi dod yn rhydd; dŵr yn sistern toiled merched. Angen gofyn a oes rhywbeth wedi ei wneud fel nad yw'r dŵr yn rhewi. Efallai byddai'n syniad gosod arwydd 'Dim Ysmygu' yno. Rhoddodd Ifor Edwards adroddiad o Bwyllgor y Toiledau. Credant bod angen mwy o arian o'r praesept; trafodwyd gosod bocs rhoddion yn y toiled; gobeithir bydd arian ar gael gan Gonwy hefyd.

59.9 COFFADWRIAETH TECWYN EVANS – deallir bod y teulu wedi argymell y medrwn roi cwpan er cof tuag at Sioe Gwytherin ac roedd Tecwyn Evans wedi trafod cyfrannu cwpan gyda Einir Williams yn y gorffennol hefyd.

59.10 CRONFA BRO CERNYW – PENDERFYNWYD i gyfrannu £135.35 i'r Clwb Garddio am blannu blodau yn y tybiau pren yn ystod yr haf. Bydd angen i'r Clerc drefnu pryd fydd y cyfarfod i drafod ceisiadau eleni.

59.11 DATGANIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2015/16 – derbyniwyd y Datganiad ac Adroddiad yn nodi rhai pwyntiau gan yr Archwilwyr. PENDERFYNWYD gofyn i Mrs Gwenda Cooper a fyddai'n derbyn y gwaith o archwilio'r llyfrau y flwyddyn nesaf a hefyd i gyflwyno rhodd o £50 iddi am waith eleni.

59.12 ADRODDIAD O GYNHADLEDD UN LLAIS – cafwyd adroddiad o'r Gynhadledd a gynhaliwyd yn Llanelwedd ar Hydref 1af gan y Cadeirydd Gwydion Jones. Cafwyd sgwrs gan Mark Drakeford yn nodi bydd mwy o gyfrifoldebau i gynghorau cymuned gan fod cyllid yn brin erbyn hyn. Roedd rhai cynghorau yn cydweithio'n dda e.e. yn ardal y Bala. Yna roedd siaradwr o Banel Cydnabyddiaeth Ariannol yn bresennol ac yn nodi bod arian ar gael i gynghorwyr. Yna cafwyd sgwrs gan Peter Davies, Gwasanaethau Gwirfoddol WCVA yn pwysleisio bod angen denu mwy o bobl i wirfoddoli. Ni chafwyd pleidlais gan yr aelodau gan nad oedd digon o gynrychiolwyr yn bresennol. PENDERFYNWYD i ofyn i Un Llais beth fydd yn digwydd i'r cynigion oedd gerbron.

59.13 MYNWENTYDD – etholwyd Emlyn Williams, Ifor Edwards a Gerwyn Davies a'r Clerc ar y pwyllgor. Roedd y cynghorwyr wedi cael golwg ar y tyfiant yn y mynwentydd a PHENDERFYNWYD eu gadael am eleni.

59.14 RHEOLIADAU ARIANNOL – dewisiwyd Diane Roberts, Ann Vaughan, Ian W Griffith, Gwyn Williams ac Elen Edwards i fod ar is-bwyllgor i edrych ar y Rheoliadau ac i gyfarfod rhyw hanner awr cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

59.15 FFONAU TALU BT – roedd BT wedi anfon at y Cyngor Sir yn gofyn iddynt gysylltu â chynghorau cymuned i ddweud eu bod yn cael gwared o ffonau talu ac os oedd rhywun â diddordeb yn eu prynu am £1 dylai gysylltu cyn 7fed Rhagfyr. Awgrymwyd cadw ciosg Pandy Tudur ac o bosib rhoi arddangosfa hanes lleol, neu wybodaeth lleol ynddo. Mae rhai yn gosod Diffibrilydd ynddynt. Pasiwyd cael mwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf ond i ddangos diddordeb mewn cadw dau giosg ffôn (mae ciosg Gwytherin wedi ei gofrestru gyda CADW).

59.16 CYNLLUN CHWARAE ALLAN – gofynnwyd gan CVSC i ni fod yn rhan o'r cynllun y flwyddyn nesaf. PENDERFYNWYD i ddweud bod gennym ddiddordeb ond bod y gost yn ddrud.

59.17 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon gohebiaeth perthnasol i'r aelodau.

59.18 GWARIANT CHWARTER – cyflwynodd y Clerc ddadansoddiad o'r gwariant a'r derbyniadau am y tri mis diwethaf.

59.19 MATERION LLEOL
59.19.1 Anodd gweld wrth ddod allan o faes parcio Yr Hen Hydd – angen torri tyfiant.
59.19.2 Brigau yn tyfu allan o wal y Bont Faen a wal wedi ei tharo hefyd.
59.19.3 Roedd pridd ar fedd wedi suddo – Gerwyn Davies am gael golwg ar hyn.

59.19.4 Gofyn i'r Cyngor osod llinellau gwyn ger ciosg Pandy Tudur er mwyn i bobl barcio yn daclusach gan fod llefydd parcio yn brin yn y pentref.
59.19.5 Angen arwydd GIVE WAY newydd ger cyffordd Bont Sylltu.
59.19.6 Arwydd ffordd GWYRIAD ger Y Graig yng nghanol y ffordd yn beryglus.
59.19.7 Angen gofyn pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud ar y pontydd. Gwaith wedi dechrau ar y bont ger Cartref y Ficerdy.

59.20 BILIAU

| | |
|---|---|
| Cyflog a Chostau Clerc | £896.96 |
| Cyllid y Wlad | £6.00 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 yh.

*Cymeradwywyd y Cofnodion …G A Jones………… Dyddiad……30/11/16……………………….*

*Community Council Meeting was held on Wednesday, November 2nd 2016 at 7.30 pm at Pandy Tudur Community Centre*

*Apologies: Gerwyn Davies*

*Present: Gwydion A Jones (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Elen H. Edwards, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, R Emlyn Williams, Einir Williams, D Gwynfor Davies and Gwyn Williams (later) and the Clerk .*

*59.1 The Chairman welcomed everyone to the meeting and especially Einir Williams, Gwytherin to her first meeting of the Community Council representing the Gwytherin area.*

*59.2 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Ann Vaughan expressed connection with item 10 – Cronfa Bro Cernyw - Gardening Club.*

*59.3 MINUTES – looked at 28th September 2016 minutes and they were accepted as a correct record.*

*59.4 MATTERS ARISING - DOG FOULING IN LLANGERNYW - need to ask the Dog Warden to target Fedwen Arian Estate as well as Glan Collen Estate.*

*Gwyn Williams arrived at the meeting.*
*59.5 ROAD ISSUES AND ENVIRONMENT*
*59.5.1 Waterloo Hill – need to ask Cllr Dilwyn Roberts to look at the road when doing his ward inspection. We also need to ask the Highways Department for a structural report on the road.*
*59.5.2 5 DOLHYFRYD, PANDY TUDUR - email received from Lynda Quinn, 5 Dolhyfryd attach copies of correspondence relating to Conwy Council and flooding outside the house. RESOLVED to send this on to Conwy and a copy to Dilwyn Roberts.*

*59.6 PLANNING APPLICATION NO 0/43302 Retrospective Application for alterations and additions to existing porch and keep canopy over the front of the shop in Meirion Stores & PO,*

*Llangernyw by Mr & Mrs D Baines. RESOLVED unanimously to support the application. Mentioned the need to discuss how to deal with a complaint from a member of the public.*

*59.7 REVISED CODE OF CONDUCT - RESOLVED unanimously to accept the Code following a change to the title of Part 3 'Declaration and / or interest. The Code was signed by the Chairman. Will require a paper copy to six members and all will require to sign the receipt.*

*59.8 TOILET LLANGERNYW - it is understood that there are some shortcomings in the toilet: basin has become loose; ladies' toilet cistern. Necessary to ask whether something has to be done so the water does not freeze. It might be necessary to put up a 'No Smoking' sign. Ifor Edwards gave a report from the toilet committee. They believe that they need more money from the precept; gift box in the toilet to be discussed; hopefully there will be money available from Conwy.*

*59.9 REMEMBRANCE OF TECWYN EVANS - it is understood that the family has recommended that we can donate a cup in memory towards Gwytherin Show and Tecwyn Evans had discussed contributing a cup with Einir Williams in the past.*

*59.10 CRONFA BRO CERNYW - £ 135.35 RESOLVED to contribute to the Gardening Club for planting flowers in the wooden tubs in the summer. Clerk will need to arrange a meeting to discuss the applications this year.*

*59.11 ANNUAL COUNCIL STATEMENT 2015/16 - received the Statement and Report identifying some points by the Auditors. RESOLVED to ask Mrs Gwenda Cooper to be internal auditor of the books next year and also to make a donation of £ 50 for her work this year.*

*59.12 ONE VOICE WALES CONFERENCE - a report from the Conference held in Builth Wells on October 1 by the Chairman Gwydion Jones was received. Mark Drakeford gave a talk announcing more responsibilities to community councils as funding is now rare. Some councils are working well together eg in the Bala area. Then there was the speaker from the Remuneration Panel present indicating that funds are available to members. There followed a talk by Peter Davies, WCVA Voluntary Service stressed the need to attract more people to volunteer. There had been no vote by members due to insufficient delegates present. RESOLVED to ask One Voice what will happen to the proposals.*

*59.13 CEMETERIES - Emlyn Williams, Ifor Edwards and Gerwyn Davies and the Clerk to be on the committee. The councilors had a look at the growth in the cemeteries and RESOLVED to let things be this year.*

*59.14 FINANCIAL REGULATIONS - Diane Roberts, Ann Vaughan, Ian W Griffith, Gwyn Williams and Elen Edwards to be on the sub-committee to look at the regulations and to meet about half an hour before the next Council meeting.*

*59.15 BT PAY PHONES - BT had sent to the County Council asking them to contact community councils to say that they are getting rid of payphones and if someone was interested in buying for a £ 1 should contact before 7fed December Pandy Tudur suggested keeping kiosk and possibly give an exhibition of local history, or local information in it. Some kiosks have a Defibrillator fitted in them. Further information was requested by the next meeting but to show an interest in keeping two phone box (the kiosk Gwytherin is registered with CADW).*

*59.16  OUTDOOR PLAYSCHEME - CVSC asked us to be part of the scheme next year. RESOLVED to say that we are interested but that the cost is expensive.*

*59.17 CORRESPONDENCE - the Clerk to send relevant correspondence to the members.*

*59.18 THREE MONTHS EXPENDITURE - The Clerk presented a breakdown of expenditure and receipts for the last three months.*

*59.19 LOCAL ISSUES*
*59.19.1  need to cut growth near entrance of Stag car park.*
*59.19.2 Twigs growing out of the wall of Pont Faen and the wall has been hit.*
*59.19.3 Soil on a grave had sunk - Gerwyn Davies to have a look at this.*
*59.19.4 Ask the Council to paint parking lines near the kiosk in Pandy Tudur so that people park neater because parking is scarce in the village.*
*59.19.5 GIVE WAY sign needed near Bont Sylltu junction.*
*59.19.6 Diversion road sign near Y Graig in the middle of the road is dangerous.*
*59.19.7 Need to ask when the work is being done on the bridges. Work has begun on the bridge near the Home Vicarage.*

*59.20 BILLS*
*Clerk Salary and Costs £ 896.96*
*Inland Revenue (PAYE) £ 6.00*

*The meeting came to a close at 9.40 pm.*

*Approved the Minutes .G A Jones.......................... Date .....30/11/16..................................*